

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Tryfan 2016/2017

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol Tryfan ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £58,650

Yn Ysgol Tryfan mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael eleni i barhau â'r gwaith a wnaed yn cau'r bwlch cyrhaeddiad, a olygodd fod 57% o'r dysgwyr PYD wedi cyflawni TL2+ Haf 2016:

- Hyrwyddo ymgysylltu â'r cartrefi – Cynllun Llofnod Teulu, ymrwymiad arweinwyr bugeiliol
- Hyrwyddo cyrhaeddiad CA4 – anogwyr dysgu, mentoriaid UDR, adnoddau, sesiynau ychwanegol, defnydd helaeth o'r Hafan. Staffio ychwanegol pynciau craidd, adnoddau a sesiynau ychwanegol pynciau craidd.

- **Tracio a thargedu dysgwyr PYD - a chynllunio rhaglen ymyrraeth briodol - cynllun dan ofal Pennaeth Cynorthwyol.**
- **Cynhwysiad Cymdeithasol - cynyddu capasiti'r Hafan i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chyrhaeddiad ar draws yr ystod ystod cymdeithasol.**
- **Hyrwyddo Presenoldeb - i geisio'r cau'r bwlch yma eto. Amser gweithredu Pennaeth Cynorthwyol, arweinwyr bugeiliol, cymhorthydd clerigol presenoldeb, swyddog lles. Gwobrwyo.**
- **Hyrwyddo a sybsideiddio profiadau allgyrsiol a gwersi offerynnol.**

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.

